

**Cofnodion heb eu cadarnhau o Gyfarfod Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
Corfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru**

19 Mawrth 2024 am 14:00, yn 3.3 CQ2 a thrwy Microsoft Teams

Yn bresennol		
Nick Elliott	(NE)	Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol
Mohammed Mehmet	(MM)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Tamsin Ramasut	(TR)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Kate Young	(KY)	Chyfarwyddwr Anweithredol
Yn Bresennol:		
Anne Beegan	(AB)	Archwilio Cymru
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd
Andrea Calise	(AC)	Prif Archwilydd Contract, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Paul Dalton	(PD)	Pennaeth Archwilio Mewnol, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Huw George	(HG)	Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyllid
Danielle Gething	(DG)	Pennaeth Rheoli Risg
David Heyburn	(DH)	Rheolwr rhaglen (ar gyfer eitem 4.1.2)
Jonathan Jones	(JJ)	Prif Reolwr Seiberddiogelwch (ar gyfer eitem 6)
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol (ar gyfer eitem 4.1.2)
Neil Lewis	(NL)	Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol (ar gyfer eitem 7)
Alun Lloyd	(AL)	Cynghorydd Annibynnol
Jane Matthews	(JM)	Pennaeth Adrodd Ariannol a Rheolaeth
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Angela Williams	(AW)	Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyllid
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd - Iechyd Cyhoeddus Cymru
Steve Wyndham	(SW)	Archwilio Cymru
Dechreuodd y cyfarfod am 14:00		
ACGC 1/2024.03.19 Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb		
Agorodd NE y cyfarfod a chroesawodd pawb a oedd yn bresennol. Nododd bod y cyfarfod hwn wedi'i gynnal yn electronig ac wyneb yn wyneb yn CQ2.		



Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn sicrhau cywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y cytunwyd ar y cofnodion yn y cyfarfod canlynol ym mis Mai 2024.

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

ACGC 2/2024.03.19 | **Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau'n ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

ACGC 3/2024.03.19 | **Archwilio Mewnol, Allanol a Chlinigol**

**ACGC 3.1/
2024.03.19** | **Traciwr Argymhellion Archwilio**

Bu'r Pwyllgor **yn ystyried** y traciwr argymhellion Archwilio a'r adroddiad

Dywedodd LB wrth y Pwyllgor am y sefyllfa bresennol o ran cynnydd a gweithrediad y camau rheoli sy'n codi o argymhellion Archwilio Mewnol ac Allanol. Adolygwyd y Gofrestr Tracio Archwilio bob chwarter gan y Tîm Arwain a oedd yn gyfrifol am gau camau gweithredu, cymeradwyo estyniadau a sicrhau cynnydd o ran gweithredu. Mae'r Traciwr yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn bob chwarter ar gyfer Sicrwydd.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Cam Gweithredu 553 a oedd yn awgrymu bod pob Aelod Anweithredol yn cyfarfod o bryd i'w gilydd. Dywedodd LB wrth y Pwyllgor fod hyn yn cael ei ystyried a bod dull yn cael ei benderfynu. Roedd Cadeiryddion y Pwyllgorau wedi dechrau cyfarfod yn rheolaidd ac roedd cynigion yn cael eu datblygu i ddod â'r holl Aelodau Anweithredol ynghyd ar gyfer cyfarfodydd grŵp cymheiriaid. Atgoffodd JW y Pwyllgor fod Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn Fwrdd Unedol, ac yn un a oedd yn gwneud penderfyniadau ar y cyd. Fel Cadeirydd y Bwrdd, ei chylch gorchwyl oedd rhedeg y Bwrdd ar fodel llywodraethu'r bwrdd unedol, a dylid pwylo ynghylch unrhyw wahanu cyfarfodydd a fyddai'n rhwystro'r model hwn.

Eglurodd PV fod yr argymhelliad yn deillio o ddull cymorth seiliedig ar gymheiriaid ac nid i drafod busnes y Bwrdd yn ychwanegol. Fe'i cynlluniwyd i hyrwyddo dysgu rhwng aelodau anweithredol, a thrwy'r rhaglen Effeithiolrwydd Pwyllgorau awgrymwyd y byddai'r cydbwysedd priodol yn cael ei ganfod gyda chefnogaeth effeithiol y Cadeirydd. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r dull hwn.

Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth ynghylch yr oedi ychwanegol i Gam Gweithredu 447 a oedd yn ymwneud â gwelliannau i'r broses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd (EHIA). Nododd PV fod deddfwriaeth sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd a fyddai'n effeithio ar y dull gweithredu, a chyfeiriodd at y cynigion i ddatblygu hwb llywodraethu newydd y byddai'r broses EHIA yn cael ei gwreiddio a'i chryfhau yn unol â'r argymhellion.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r papurau Traciwr Archwilio a gyflwynir i'r Pwyllgor yn y dyfodol nodi ffynhonnell pob cam gweithredu er hwylustod.

Cam Gweithredu: LB/PV



Cydnabu PD y lefel uchel o graffu ar argymhellion archwilio mewnol ac allanol, a oedd yn gadarnhaol o ran sicrhau bod y sefydliad yn mynd i'r afael ag argymhellion ac yn eu hymgorffori.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** fod camau gweithredu Argymhellion Archwilio yn cael eu rheoli'n effeithiol gan y Tîm Arwain.

**ACGC 3.2/
2024.03.19**

Archwilio Mewnol

Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol.

Dywedodd PD wrth y Pwyllgor fod gwaith wedi mynd rhagddo'n dda ers y cyfarfod diwethaf. Cyflwynwyd dau adroddiad i'r Pwyllgor ac ar yr agenda heddiw, ac roedd un adroddiad ar ffurf drafft ac roedd gwaith maes yn mynd rhagddo ar bedwar adolygiad. Esboniodd fod rhywfaint o waith wedi'i ohirio oherwydd salwch staff a staff yn cael eu symud o fewn ei dîm.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch yr oedi wrth gyhoeddi gwaith a wnaed a oedd yn golygu bod gwaith ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn cael ei symud i'r flwyddyn nesaf. Bu'r Pwyllgor yn ystyried rhaglen dreigl o waith Archwilio i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon. Gofynnodd NE am drafodaethau i ddatblygu cynllun gwaith cadarn a chyflym ar gyfer y flwyddyn i ddod. Cytunodd y Pwyllgor fod angen newid y dull o gynllunio gwaith er mwyn osgoi adroddiadau wedi'u gohirio a symud gwaith yn y flwyddyn i ddod.

Cam Gweithredu: PV/HG/PD

Nododd y Pwyllgor Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol.

Rhoddodd y Pwyllgor **ystyriaeth** i Gynllun Gwaith Archwilio Mewnol 2024/25.

Gofynnodd y Pwyllgor sut yr oedd gwaith archwilio mewnol ac allanol yn cael ei gydlynw i osgoi dyblygu diangen o ran adnoddau ac i ategu gwaith y ddau dîm. Cadarnhaodd PD ei fod yn cysylltu ag Archwilio Cymru wrth ddatblygu cynlluniau gwaith i osgoi dyblygu, gan nodi bod y cynllun yn parhau i fod yn hyblyg a bodd modd ei addasu yn ystod y flwyddyn yn ôl yr angen.

Cadarnhaodd AB fod Archwilio Cymru wedi cael golwg ar waith Archwilio Mewnol, a bod cynlluniau gwaith hefyd yn cael eu datblygu ochr yn ochr â'u gwaith ar archwiliadau GIG Cymru gyfan.

Trafododd y Pwyllgor nifer yr adroddiadau a gyflwynwyd yn chwarter olaf y cynllun eleni, ac ystyriodd sut y gellid osgoi hyn yn y blynyddoedd i ddod.

Dywedodd PV wrth y Pwyllgor fod y Tîm Gweithredol Busnes wedi trafod y Cynllun Gwaith Archwilio Mewnol Drafft yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth. Aeth PD i'r cyfarfod i gyflwyno'r Cynllun Gwaith a nododd y sylwadau a wnaed. Cytunwyd y byddai'r Cynllun Gwaith drafft diwygiedig yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol heddiw i'w drafod a byddai'r fersiwn terfynol yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mai.



Gofynnodd y Pwyllgor i'r cynllun drafft gael ei adolygu i sicrhau cwmpas clir ac adlewyrchu mewnbyn y Tîm Gweithredol. Cytunodd PD y byddai'r manylion yn cael eu mireinio a'u cynnwys yn y Cynllun Gwaith terfynol a'u cyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Mai.

Cam Gweithredu: PD

Trafododd y Pwyllgor gwmpas yr Archwiliad Rheoli Cofnodion arfaethedig yn 2024/25. Dywedodd SS fod yr archwiliad a gynigiwyd yn ymwneud â'r system rheoli prosiect a'r broses i sefydlu'r system newydd ac y byddai hyn yn cael ei gyflawni erbyn diwedd Chwarter 3.

Nododd y Pwyllgor Gynllun Gwaith Archwilio Mewnol 2024/25 a'r camau y cytunwyd arnynt i'w hadolygu a'u hailgyflwyno i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Cronfa Risg Cymru

Rhoddodd y Pwyllgor **ystyriaeth** i Archwiliad Mewnol Cronfa Risg Cymru (sicrwydd sylweddol).

Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth ynghylch pam fod y Sefydliad wedi methu'r dyddiad cau ar gyfer adrodd i Gronfa Risg Cymru a gofynnodd am gael esboniad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor.

Cam Gweithredu: SS

Nododd y Pwyllgor Adroddiad Archwilio Mewnol Cronfa Risg Cymru.

Ystyriodd a nododd y Pwyllgor Archwiliad Mewnol y Rhaglenni Gwaith (sicrwydd rhesymol).

Diolchodd NE i PD.

**ACGC 3.3/
2024.03.19**

Archwilio Allanol

Bu'r Pwyllgor **yn ystyried** Diweddariad Archwilio Cymru.

Dywedodd AB wrth y Pwyllgor y byddai cynllun Archwilio Cymru yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Mai, gan nodi'r cynlluniau archwilio perfformiad ar gyfer y flwyddyn 2024/2025. Byddai'r cynllun yn cynnwys Asesiad Strwythuredig, a'r Archwiliad Dwfn Digidol a oedd wedi'i ohirio o gynllun eleni. Roedd dau faes gwaith ar y gweill, sef Adolygiad o osod Amcanion Llesiant yr Ymddiriedolaeth ac Archwiliad dwfn o'r Asesiad Strwythuredig.

Byddai'r gwaith Archwilio ar Effeithlonrwydd Ariannol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yng nghyfarfod mis Gorffennaf a byddai'r canlyniadau'n cael eu rhannu gyda'r Bwrdd cyn cyhoeddi'r Adroddiad drafft.

Unwaith eto, mynegodd y Pwyllgor ei siom ynghylch gohirio'r Archwiliad Dwfn Digidol o blaid y gwaith Effeithlonrwydd Ariannol. Eglurodd AB y rheswm am yr oedi ac eglurodd y byddai'r gwaith maes yn cael ei wneud yn yr haf a byddai'r adroddiad y cyntaf i'w gyflwyno yn y flwyddyn 2024/25.

Gofynnodd y Pwyllgor sut y byddai'r Archwiliad Dwfn Digidol yn ystyried yr amrywiadau mewn gwariant ar fuddsoddiad digidol yng Nghymru o gymharu â chenedloedd eraill. Dywedodd AB wrth y Pwyllgor y byddai'n rhannu'r wybodaeth honno â'r Pwyllgor ar ôl y cyfarfod.

Cam Gweithredu: BIPAB

Dywedodd y Pwyllgor fod y Sefydliad mewn sefyllfa ariannol wahanol i Fyrddau Iechyd a'i fod yn pryderu bod yr un Fframwaith yn cael ei ddefnyddio ar gyfer holl gyrff y GIG yng Nghymru ar gyfer y gwaith Effeithlonrwydd Ariannol a gofynnodd i sefyllfa adennill costau Iechyd Cyhoeddus Cymru gael ei hadlewyrchu yn yr adroddiad. Sicrhodd AB y Pwyllgor y byddai'r adroddiad drafft yn cael ei rannu cyn ei gyhoeddi ac y byddai'r sefyllfa'n cael ei hystyried yn y cyfarfod hwnnw.

Nododd y Pwyllgor y Diweddariad gan Archwilio Cymru.

Derbyniodd y Pwyllgor lythyr yr Archwilydd Cyffredinol.

Tynnodd SW sylw'r Pwyllgor at y dyddiad cau a oedd wedi'i gynnwys yn y llythyr ar gyfer ardystio archwiliadau erbyn 15 Gorffennaf a'r cynnydd o 6.4% yng nghost ffioedd. Nododd y Pwyllgor fod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi derbyn cynnydd ar gyfer y cynnydd yng nghost cyflogau yn unig, ac na chafodd 3.67% o godiad ychwanegol yr oedd Bwrddau Iechyd wedi'i gael.

Nododd y Pwyllgor lythyr yr Archwilydd Cyffredinol.

Dywedodd PV wrth y Pwyllgor fod dyddiad dros dro wedi'i drefnu ar gyfer cyfarfod i gymeradwyo'r adroddiad blynyddol a oedd yn dibynnu ar gadarnhau'r dyddiad cyflwyno gan Lywodraeth Cymru.

Diolchodd NE i AB ac SW am yr adroddiad a'r llythyr.

ACGC 4/2024.03.19	Cyllid a Chaffael
ACGC 4.1/2024.03.19	Colledion a Thaliadau Arbennig
ACGC 4.1.1/2024.03.19	Adroddiad ar Golledion a Thaliadau Arbennig
<p>Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr Adroddiad ar Golledion a Thaliadau Arbennig ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 29 Chwefror 2024. Roedd yr adroddiad yn dangos bod y ffigurau yn debyg i flynyddoedd blaenorol.</p> <p>Rhoddodd JM wybod i'r Pwyllgor fod y ddyled o £207,000 wedi'i dileu a gofnodwyd yn y papur wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, a gofynnwyd am gymeradwyaeth ar gyfer £46,000 ychwanegol.</p> <p>Nododd y Pwyllgor a chymerodd sicrwydd bod yr holl golledion a thaliadau arbennig wedi'u gwneud yn unol â gofynion y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.</p>	
ACGC 4.1.2/2024.03.19	Gwaredu Offer Profi COVID sydd wedi dyddio



Rhoddod y Pwyllgor ystyriaeth i Waredu Offer Profi COVID sydd wedi mynd heibio eu dyddiad defnyddio olaf. Papur

Dywedodd MK fod lefel dilyniannu SARS CoV-2 wedi gostwng yn sylweddol mewn cyfnod byr o amser, gan arwain at gau Labordy Goleudy yng Nghasnewydd. Defnyddiodd cynnydd mewn profion Muiltplex yn y Labordai Gwib adweithyddion gwahanol i'r rhai a ddefnyddiwyd ar gyfer profion COVID ac arweiniodd at anallu i aildefnyddio'r adweithyddion a brynwyd ar gyfer profion COVID.

Gofynnodd y Pwyllgor ai Cymru oedd yr unig wlad i ddileu symiau mawr o stoc anarferedig a dywedwyd wrthynt fod gwledydd eraill yn y Deyrnas Unedig hefyd mewn sefyllfa debyg.

Mae system rheoli stoc newydd wedi'i datblygu a fyddai'n cefnogi'r broses yn y dyfodol ac yn darparu golwg i'r dyfodol i ragweld unrhyw gynnydd neu ddirywiad tebygol yn y galw am reoli stoc yn effeithlon.

Sicrhaodd y Pwyllgor fod dileu stoc anarferedig wedi'i gymeradwyo yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Ariannol a nododd fod y Sefydliad yn aros am gymeradwyaeth i ddileu'r £46,000 a oedd yn weddill gan Lywodraeth Cymru.

**ACGC 4.2/
2024.03.19**

Adroddiad Caffael

Bu'r Pwyllgor **yn ystyried** yr Adroddiad Caffael diwygiedig ar gyfer 1 Medi 2023 tan 31 Rhagfyr 2023. Derbyniwyd yr adroddiad i ddechrau yng Nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Ionawr 2023 pan amlygwyd nifer o bryderon gan JM ac AW. Datryswyd eu pryderon gan y Tîm Caffael yn y Bartneriaeth Cydwasaethau.

Dywedodd AW a JM wrth y Pwyllgor fod yr anghywirdebau canfyddedig, a adroddwyd i'r Pwyllgor yng nghyfarfod mis Ionawr yn Nhabl 3.1, yn rhai o'r nifer o Gamau Tendr Sengl a Chamau Gweithredu Dyfynbris Sengl a oedd wedi'u cwestiynu. Roedd angen dadansoddiad pellach i ddangos sut yr oedd hyn yn cyd-fynd â'r tabl yn adran 2.2. Roedd yr adroddiad wedi'i egluro gan ychwanegu colofn yn nodi nifer yr archebion prynu cyfunol a godwyd a oedd, yn ogystal, yn cyfrannu at y cyfrifiadau canrannol cyffredinol.

Sicrhaodd y Pwyllgor fod gweithgarwch caffael yn cael ei wneud yn unol â gofynion y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog. **Cymeradwyodd** y Pwyllgor fformat newydd yr Adroddiad.

Byddai'r Adroddiad Caffael ar gyfer y cyfnod rhwng Ionawr a diwedd Mawrth yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Mai.

Cam Gweithredu: AW/JM

**ACGC 5/
2024.03.19**

Seiberddiogelwch

Bu'r Pwyllgor **yn ystyried** yr Adroddiad Sicrwydd Seiberddiogelwch, yr Aseiad Seiberddiogelwch a'r Canfyddiadau yr adroddwyd arnynt (IGDC).

Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch yr oedi wrth ddod â'r Adroddiad i'r cyfarfod. Eglurodd DJ yr oedi wrth gyflwyno'r Aseiad hwn a bod y canfyddiadau i'r Pwyllgor yn



ganlyniad i ddatrys gwallau ffeithiol, cyflwyno'r diweddariad i'r Cynllun Gwella yn y cyfarfod diwethaf a phenodi'r Rheolwr Arweiniol Seiberddiogelwch (JJ) newydd i'r Pwyllgor. Sefydliad.

Nododd DJ fod rhai o'r gwelliannau sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun eisoes wedi eu cynnwys yn y cynllun gwella. Sicrhodd cyfarfodydd misol yr Uned Seibergadernid (CRU) fod y Cofnod Canfyddiadau'n cael ei ddiweddarau a bod cynnydd yn erbyn yr asesiad yn cael ei wirio.

Nododd y Pwyllgor y gwahanol safbwyntiau a fynegwyd gan y Sefydliad a'r Archwilwyr a gofynnodd am esboniad. Tynnodd DJ sylw'r Pwyllgor at y bylchau canlynol yng nghasgliadau'r adroddiad:

- Bod Seiberddiogelwch yn cael ei drafod yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y Bwrdd ac eitemau Seiber cysylltiedig ar agendâu cyfarfodydd y Pwyllgor hwn.
- Diffyg cyfeiriad at gyfweiliadau gyda thri Chyfarwyddwr Gweithredol y Sefydliad.
- Diffyg cyfeiriad at eitemau sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gwella Seiber, roedd yr eitemau'n cynnwys gwybodaeth am ddechreuwr a'r rhai sy'n gadael a phennu a dileu mynediad yn brydlon.
- Diffyg cyfeiriad at ddefnyddio DATIX i ddogfennu digwyddiadau.

Trafododd y Pwyllgor y rhesymau dros drafod Seiberddiogelwch yng nghyfarfodydd y Bwrdd Preifat a chytunwyd ei fod wedi'i gynnwys yn y Protocol ar gyfer cymryd cofnodion mewn Cyfarfodydd Preifat. Roedd y Bwrdd wedi gofyn i ffynonellau allanol am gyngor ynghylch y safbwynt y dylai'r Bwrdd ei fabwysiadu ynghylch a oeddent yn gywir i barhau i drafod Seiberddiogelwch mewn Cyfarfodydd Preifat ond nid oedd wedi derbyn unrhyw gyngor.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r tîm Seiberddiogelwch rannu eu gwaith a'r cynnydd a wnaed gyda'r Bwrdd ac Uwch Arweinwyr y Sefydliad.

Cam Gweithredu: DJ, JJ, HG, PV

Argymhellodd y Pwyllgor, er y dylai trafodaethau Seiberddiogelwch aros yn Breifat, y dylid cyfeirio mewn cyfarfodydd Cyhoeddus at y trafodaethau Preifat a rhoi sicrwydd i'r cyhoedd.

Awgrymodd y Pwyllgor y dylid cynnwys y Camau Gweithredu o'r Adroddiad Asesu yn y Gofrestr Risg Strategol ac wedyn yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol, sef dogfennau a oedd ar gael yn gyhoeddus.

Gan gyfeirio at Atodiad F yr adroddiad, sicrhodd DJ y Pwyllgor fod pensaernïaeth ddigidol y Sefydliad wedi'i dogfennu'n dda a chan fod y gweithlu'n hybrid, ni fyddai'n bosibl defnyddio'r systemau mynediad a nodir yn yr atodiad.

Teimlai DJ a JJ fod yr anghywirdebau a godwyd ganddo yn cael eu trin yn brydlon a'u datrys ac nad oedd yn cyfiawnhau eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru. Trafododd y Pwyllgor y posibilrwydd o uwchgyfeirio ac awgrymodd archwilio a fyddai'n briodol ysgrifennu at y Prif Swyddog Digidol (Mike Emery) neu at Iechyd a Gofal Digidol Cymru.



Gofynnodd y Pwyllgor i HG, DJ, JJ, PV ac IB drafod yr Adroddiad a phenderfynu ar yr opsiynau gorau i godi pryderon am anghywirdebau i Mike Emery yn y lle cyntaf er mwyn archwilio a phenderfynu ar yr uwchgyfeirio sydd ei angen.

Cam Gweithredu: HG, DJ, JJ, PV ac IB

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch rheoli Seiberddiogelwch yn y sefydliad.

	Egwyl
ACGC 6/2024.03.19	Llywodraethu ac Atebolrwydd
ACGC6.1/ 2024.03.19	Cofnodion (29 Ionawr 2024), Log Gweithredu a Materion sy'n Codi

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Cofnodion a Log Gweithredu'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2024.

Wele isod yr hyn a wnaeth y Pwyllgor:

- **Cymeradwyo** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2024 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.
- **Cymeradwyo** cau saith cam a gwblhawyd ar y Log Gweithredu.

ACGC 6.2/ 2024.03.19	Adroddiad Perfformiad Llywodraethu Gwybodaeth
---------------------------------	--

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad Perfformiad Llywodraethu Gwybodaeth.

Cyflwynodd SS yr adroddiad fformat newydd i'r Pwyllgor, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am:

- Lywodraethu Integredig;
- Rheoli Cofnodion.

Mewn perthynas â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI), tynnodd SS sylw at y cyfraddau ymateb ac oherwydd cymhlethdod rhai cheisiadau, gallai'r Sefydliad fethu â chydymffurfio â'r terfynau amser a bennwyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Roedd y tîm Llywodraethu Gwybodaeth wedi bod mewn cysylltiad â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth o'r sefyllfa a natur gymhleth llawer o'r cheisiadau. Ceisiodd y Tîm welliant parhaus a defnyddiodd eu System Weinyddol newydd i reoli'r sefyllfa.

Trafododd y Pwyllgor awgrym ar gyfer Archwilio Mewnol i edrych ar Ryddid Gwybodaeth a'r posibilrwydd o godi Risg yn ymwneud â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth i'w harchwilio.

Cam Gweithredu: SS

Mewn perthynas â Cheisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun, roedd cynnydd bychan yn nifer y cheisiadau wedi dod i law ac ymdriniwyd â phob un o fewn yr amserlen benodedig.

Roedd un toriad data adroddadwy mewn perthynas â chanlyniadau sgrinio a anfonwyd i hen gyfeiriad, roedd hwn yn adroddadwy. Argymhellodd y Tîm Rheoli Digwyddiad gamau gweithredu a phenderfynodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth nad oedd angen unrhyw gamau pellach.



Nododd y Pwyllgor fod y ffigurau cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol wedi gostwng ychydig ond eu bod yn parhau i fod yn uwch na tharged y GIG. Cynlluniwyd Sesiwn Datblygu Bwrdd i gynnwys sesiwn ar Lywodraethu Gwybodaeth a Hyfforddiant Gorfodol.

Dywedodd SS wrth y Pwyllgor y byddai ei dîm yn cefnogi Gweithrediaeth y GIG yn y dyfodol ynghylch eu Llywodraethu Gwybodaeth, a byddai'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn cael sicrwydd gan Weithrediaeth y GIG bod sicrwydd priodol ar waith yng Ngweithrediaeth y GIG.

Nododd y Pwyllgor fod yr allwedd ar rai o'r graffiau yn anghywir. Cytunodd SS a dywedodd wrth y Pwyllgor fod gwaith ar y gweill i wella cyflwyniad y papur.

Mewn perthynas â'r diweddariad ar raglen mudo Rheoli Cofnodion i SharePoint, rhoddodd SS grynoded o'r cynnydd presennol. Byddai Diogelu Iechyd a Sgrinio yn mudo ym mis Ebrill a mis Mai a thra bod Gweithrediau wedi mudo, nododd y cais gan yr Is-adran Gyllid i ohirio mudo er mwyn caniatáu ar gyfer eu dyddiadau cau ar gyfer cyflwyniadau cyn diwedd y flwyddyn.

Dywedodd SS wrth y Pwyllgor fod dogfen sicrwydd gychwynol gan y Swyddfa Rheoli Prosiectau wedi bod yn gadarnhaol a'i bod yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed, a byddai hon yn cael ei chyflwyno i gyfarfod mis Mai. Dywedodd SS y byddai'r rhaglen gyflwyno wedi'i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn galendr hon.

Dywedodd SS wrth y Pwyllgor fod gwireddu buddion yn rhan annatod o'r rhaglen, ac y byddai'n dod â phapur neu gyflwyniad i'r Pwyllgor yn agos at ddiwedd y rhaglen gyflwyno i roi sicrwydd i'r Pwyllgor ynghylch y Rhaglen Rheoli Cofnodion.

Cam Gweithredu: SS

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** o'r Adroddiad Perfformiad Llywodraethu Gwybodaeth a bod Rhaglen Weithredu SharePoint a gyfer Rheoli Cofnodion ar y trywydd iawn gyda'r cynllun gweithredu.

ACGC 6.3
2024.03.19

Diweddariadau Llywodraethu Dwywaith y Flwyddyn

Derbyniodd y Pwyllgor y Diweddariadau Sicrwydd Llywodraethu Ddwywaith y Flwyddyn:

- Datganiadau o Fuddiannau
- Cylchlythyrau Iechyd Cymru
- Diweddariad Polisi

Tynnodd LB sylw'r Pwyllgor at nifer y polisiâu a oedd yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd ac a fyddai ar yr Agenda yng nghyfarfod mis Mai o'r Pwyllgor i'w cymeradwyo. Roedd crynodeb o Gylchlythyr Iechyd Cymru wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Eglurhaol ac atodiad ychwanegol yn manylu ar gynnydd pob un o Gylchlythyrau Iechyd Cymru. Byddai'r Gofrestr o Fuddiannau'n cael ei chyhoeddi yn dilyn y cyfarfod a gofynnodd i'r Pwyllgor nodi y byddai'r Datganiadau o Ddiddordeb gan Weithrediaeth y GIG yn cael eu

cynnwys yn Rhan B o'r Pwyllgor Archwilio o gyfarfod mis Mai o'r Pwyllgor hwn yn y dyfodol.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch:

- gweithredu'r Polisi Safonau Ymddygiad a **nodwyd** y byddai'r Gofrestr Datganiadau o Ddiddordeb wedi'i diweddarau yn cael ei chyhoeddi ar ôl y cyfarfod.
- rheoli'r broses o sicrhau bod y Sefydliad yn cydymffurfio â **Chylchlythyrau Iechyd Cymru**.
- y blaenoriaethu a'r cynnydd sy'n cael ei wneud i adolygu **polisiau Corfforaethol**, gweithdrefnau a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

ACGC 6.4
2024.03.19

Adolygiad Blynyddol o Gydymffurfiaeth â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adolygiad Blynyddol o Gydymffurfiaeth â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol.

Rhoddodd LB wybod i'r Pwyllgor fod yr hunanasesiad wedi'i gwblhau a'i fod wedi'i ddarparu'n llawn ar gyfer sicrwydd; daeth yr asesiad i'r casgliad bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cydymffurfio â holl elfennau'r cod. Cyfeiriodd at y dystiolaeth sicrwydd ychwanegol a oedd wedi'i chynnwys eleni megis cymeradwyo Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ym mis Tachwedd 2023 a phenodi TR a oedd wedi dod â sgiliau cydraddoldeb ac amrywiaeth ychwanegol i'r Bwrdd.

Sicrhaodd y Pwyllgor fod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydymffurfio â Llywodraethu Corfforaethol mewn Adrannau Llywodraethu Canolog: Cod Ymarfer

ACGC 7/2024.03.19

Trefniadau lletya

Derbyniodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf ar lafar gan NL ynghylch trafodaethau â Gweithrediaeth y GIG a Llywodraeth Cymru i letya Gweithrediaeth y GIG.

Cynigiwyd atodiad i'r cytundeb lletya ar gyfer 2023 ar gyfer y Trefniant Lletya ar gyfer 2024/25. Roedd wedi'i ystyried gan y Tîm Gweithredol Busnes a byddai'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ar 28 Mawrth 2024 i'w gymeradwyo. Roedd rhai materion yn cael eu datrys ar hyn o bryd, adolygiad o'r fath o'r ffi cynnal a rhai elfennau sicrwydd ynghylch Gwarcheidwad Caldicott ac Uwch Swyddog Adrodd. Byddai'r Sefydliad yn cynnal adolygiad llawn o'r Cytundeb Lletya yn ystod 2024/25, i'w ddwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol ganlynol.

Dywedodd PV wrth y Pwyllgor fod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi datblygu rhaglen sicrwydd fanwl y byddai'n ei goruchwyllo, gan gynnwys Llywodraethu Gwybodaeth, a Cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Mynediad.

Sicrhaodd y Pwyllgor y paratoadau ar gyfer cwblhau'r trefniant Lletya ar gyfer 2024/25.

ACGC 8/2024.03.19

Er Gwybodaeth

ACGC 8.1/2024.03.19

Cyllid, Caffael ac Atal Twyll

Dim



ACGC 8.2/2024.03.19	Archwilio Mewnol, Allanol a Chlinigol
Dim	
ACGC 8.3/2024.03.19	Rheoli Risg
Nododd y Pwyllgor y Cofrestrau Risg Strategol a Chorfforaethol llawn.	
ACGC 8.4/2024.03.19	Llywodraethu ac Atebolrwydd
Dim	
ACGC 8.5/2024.03.19	Cynllun Gwaith y Pwyllgor
Nododd y Pwyllgor Gynllun Gwaith y Pwyllgor.	
ACGC 9/2024.03.19	Gweinyddiaeth i Gloi
Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor: 9 Mai 2024	
Nododd y Pwyllgor y byddai holl bapurau'r Pwyllgor yn cael eu cyhoeddi, ac eithrio : <ul style="list-style-type: none">• Adroddiad Caffael• Adroddiad ar Golledion a Thaliadau Arbennig• Dileu Dyled• Adroddiadau yn ymwneud â Seiberddiogelwch ac Atal Twyll• Adrannau yn yr adroddiad Llywodraethu Gwybodaeth a oedd yn sensitif.	
Gofynnodd NE i'r Pwyllgor dderbyn hysbysiad o'r lefelau golygu er mwyn sicrhau lefel gyson o ddarpariaeth gwybodaeth yn y dyfodol.	
Cam Gweithredu: PV	
Unrhyw Fater Arall	
Gan nodi mai hwn oedd cyfarfod diwethaf KY o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol, diolchodd iddi am ei holl waith ar y Pwyllgor hwn.	
Gofynnwyd i'r Pwyllgor e-bostio adborth am y cyfarfod at LB.	
Diolchodd NE i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.	
Daeth y cyfarfod i ben am 12:43	

Cofnodion heb eu cadarnhau